# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Mark Thomas | Adran Etholiadol: | Penclawdd |

| | |
|---|---|
| **Portffolio Cabinet/Gweithrediaeth** | Yr Amgylchedd a Chludiant |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Yn ystod y flwyddyn ddinesig 2014-2015, cynhaliais gymorthfeydd misol a rannwyd rhwng Penclawdd a Llanmorlais. Cynrychiolais farn a phryderon preswylwyr y mae'r amddiffynfeydd llifogydd newydd yn effeithio arnynt a chysylltais ag CNC i geisio eu datrys.

Parheais i weithio gyda pherchnogion a darpar ddatblygwyr Tafarn y Railway i adfer yr adeilad fel bwyty/tafarn.

Trefnais i wifren defaid gael ei gosod o gwmpas y ddau gae chwarae yng Nghraig-y-Coed i atal defaid rhag difetha'r arwynebau chwarae.

Ymdriniais yn barhaol â materion cyffredin a oedd yn destun pryder i etholwyr, megis tyllau yn y ffyrdd, goleuadau stryd, torri gwrychoedd a glaswellt, etc. Oherwydd galw mawr trefnais i fwy byth o flodau gwyllt gael eu plannu.

**Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 6 / 8 | 75% |
| Y Cabinet | 10 / 11 | 91% |
| Y Cyngor | 16 / 17 | 94% |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 / 7 | 86% |
| Pwyllgor y Gronfa Bensiwn | 5 / 6 | 83% |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 5 / 8 | 63% |
| Panel yr Ymddiriedolwyr | 1 / 3 | 33% |
| CYFFREDINOL | 49 / 60 | 82% |

Cyfarfodydd Craffu:

| | | |
|---|---|---|
| Panel Perfformiad Craffu Gwella Gwasanaethau a Chyllid | 1 / 4 | 25% |
| CYFFREDINOL | 1 / 4 | 25% |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Yn ystod y flwyddyn cefais fy mhenodi fel Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Chludiant. Mae'r rôl hon yn cynnwys nifer helaeth o faterion y cyngor o briffyrdd i fysus, y marina, llwybrau cerdded, gwrychoedd, torri glaswellt, toiledau cyhoeddus, etc.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Mae llawer o'm gweithgareddau a'm mentrau arbennig wedi ymwneud â'm rôl newydd fel Aelod y Cabinet, er enghraifft trwy broses y gyllideb roeddwn yn rhan o'r broses ymgynghori â chydweithwyr, swyddogion, staff ac aelodau'r cyhoedd. Trwy'r broses hon, euthum i rai digwyddiadau cyhoeddus lle roeddem yn siarad ac yn gwrando ar farn y cyhoedd. Helpodd hyn i lunio'r cynigion a aeth gerbron y cyngor yn y pen draw i gytuno arnynt.

Hefyd, edrychais ar adolygiadau o wasanaethau yn fy mhortffolio fel y gallent wynebu heriau cyllidebau sy'n gostwng wrth barhau i gyflwyno'r gwasanaethau y mae preswylwyr Abertawe'n dibynnu arnynt.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

09/12/2014 - Difenwi
23/10/2014 - Diogelu
14/08/2014 - Manteisio i'r Eithaf ar Eich Tabled/Ffôn Clyfar
04/08/2014 - Cynnwys y Cyhoedd
03/07/2014 - Rhyddid Gwybodaeth
03/07/2014 - Diogelu Data (gan gynnwys rôl fel rheolwr data)

Mae cael fy mhenodi fel Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Chludiant wedi gofyn am amser a dysgu sylweddol. Mae fy nghyfnod fel cynghorydd wedi fy helpu'n fawr.

Mae fy nghefndir fel cynrychiolydd undeb hefyd wedi fy helpu'n fawr.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Mae fy rôl newydd fel Aelod y Cabinet wedi fy helpu i gael dealltwriaeth well o'r cyngor ledled y sir, sydd wedi bod yn gromlin ddysgu dda.

Yn gyntaf ac yn bwysicaf rwy'n parhau i fod yn gynghorydd Ward Penclawdd ac, i'm hetholwyr, nid oes dim yn wahanol. Rwy'n parhau i fod ar gael i fynd i'r afael â materion a godir gan unrhyw un.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300 (hyd at 16 Medi 2014)
Cyflog Uwch: £32,000 Aelod y Cabinet ar yr Amgylchedd a Chludiant (o 17 Medi 2014)

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 03.06.15 |